Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cwmpadarn
# Pen-y-graig
# Llanbadarn Fawr
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3SG

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Cwmpadarn ym mhentref Llanbadarn, ger Aberystwyth, yng Ngheredigion. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal o'i gwmpas. Ar hyn o bryd, mae 59 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar y gofrestr, ac maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth oed cymysg.

Mae tua 15% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae rhyw 5% o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac mae 7% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ar hyn o bryd. Daw 17% o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 37% o ddisgyblion, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ym Mawrth 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Penodwyd y pennaeth yn 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cwmpadarn yn 2014-2015 yw £3,516. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,697 a'r lleiafswm yw £3,038. Mae Ysgol Gynradd Cwmpadarn yn y 37ain safle o'r 51 ysgol gynradd yn awdurdod lleol Ceredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau siarad a gwrando yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen ac ysgrifennu
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg
- Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol i'w gwella
- Mae staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda i roi mentrau newydd ar waith
- Mae strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn darllen ac ysgrifennu ar draws yr ysgol
- Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid oes trefniadau wedi'u diffinio'n glir gan yr ysgol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth
- Mae llawer o fentrau yn eithaf newydd, ac mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith ar agweddau ar addysgu, asesu a hunanarfarnu
- Nid yw llywodraethwyr yn chwarae rôl ddigon strategol mewn hunanarfarnu a gwella'r ysgol, ac nid ydynt yn herio'r ysgol yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Darparu tasgau priodol i ddisgyblion i fodloni eu hanghenion dysgu yn dda, yn enwedig y disgyblion mwy abl

A2 Gwella’r broses o osod targedau a darparu mwy o arweiniad i ddisgyblion er mwyn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A3 Sefydlu gweithdrefnau arweinyddiaeth a rheolaeth ffurfiol i sicrhau bod trefniadau clir ar waith i gyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth

A4 Datblygu rôl y corff llywodraethol i herio’r ysgol yn briodol

A5 Cryhau gweithdrefnau hunanarfarnu er mwyn galluogi arweinwyr i nodi cryfderau’r ysgol yn glir a’r meysydd hynny y mae angen eu gwella

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sy'n debyg i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ond nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni yn unol â'u potensial.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau siarad a gwrando yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud mewn gwersi ac mewn gwasanaethau, ac maent yn rhannu'u barnau yn frwdfrydig gydag oedolion a'u cyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau. Maent yn ddarllenwyr hyderus, a defnyddiant ystod o strategaethau i fynd i'r afael â geiriau ac ymadroddion anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn dangos dealltwriaeth effeithiol o gymeriadau, themâu a phlotiau yn eu testunau dewisedig. Gall y rhan fwyaf ohonynt wneud defnydd da o'u medrau darllen i chwilio am ffynonellau mewn llyfrau llyfrgell ac ar wefannau. Mae'r rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn dangos eu bod yn datblygu dealltwriaeth dda o destunau priodol. Mae disgyblion hŷn yn darllen er pleser, ac yn esbonio'u dewis o lyfrau yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn ysgrifennu at ystod o ddibenion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o arddulliau ysgrifennu yn llwyddiannus, ac yn cynhyrchu darnau ysgrifennu estynedig effeithiol ar gerddi, cymeriadau gwahanol a thestunau hanesyddol. Mae eu hysgrifennu yn ddifyr ac yn cynnwys geirfa ysgogol a chystrawen ddiddorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau sillafu ac atalnodi yn llwyddiannus wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy'r cyfnod allweddol. Mae medrau llawysgrifen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg. Maent yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn ymateb yn frwd i gwestiynau. Bydd disgyblion hŷn yn cyfranogi mewn sgyrsiau yn frwd gydag oedolion, ac mae eu medrau ynganu yn gymwys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gallu defnyddio a chymhwyso ystod o fedrau rhif yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus yn defnyddio sgwâr cant i adnabod un yn fwy na, a deg yn fwy na, a gall y rhai mwy abl ddod o hyd i ugain yn fwy na. Mae llawer o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn

casglu ac yn cyflwyno'u data yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni yn unol â'u potensial.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gymwys am bedair rheol mathemateg a gwerth lle, ac maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus yn eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn esbonio'r strategaethau pen y maent yn eu defnyddio i weithio cyfrifiadau a datrys problemau yn dda. Mewn gwyddoniaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau trin data a mesur yn effeithiol. Nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn ymestyn eu medrau rhifedd i safon briodol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion eraill yn eu dosbarthiadau.

Oherwydd y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, mae data perfformiad yr ysgol yn annibynadwy.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% isaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, tra bod perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Ar gyfer y deilliant 6 uwch na'r disgwyl, mae cyrhaeddiad disgyblion mwy abl wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is ar gyfer llythrennedd, a rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn mewn medrau llythrennedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf o'i gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion mwy abl ar y lefel 5 uwch mewn Saesneg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is, a rhwng y 50% is a'r 25% isaf mewn mathemateg. Yn gyffredinol, mae merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn ar lefel 5 ddisgwyliedig mewn Saesneg, ac fe wnaeth bechgyn berfformio'n well na merched ar y lefel uwch mewn mathemateg.

Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformiad gystal â'u cyfoedion yn gyffredinol. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad y disgyblion hyn wella'n sylweddol yn 2014.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae cenhadon chwaraeon efydd yr ysgol yn chwarae rhan effeithiol yn annog dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff rheolaidd.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar iard yr ysgol. Maent yn dangos lefelau uchel o barch tuag at ei gilydd ac yn trin oedolion gyda chwrteisi. Mewn gwersi, maent yn dangos brwdfrydedd am eu pynciau ac agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae disgyblion yn chwarae rhan weithgar yn yr ysgol a chynghorau eco, ac maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddifrifol iawn. Maent wedi'u cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau yn ymwneud â threfniadau amser cinio'r ysgol, a datblygu ardal ddysgu goedwig yr ysgol. Yn ddiweddar, chwaraeodd cyngor yr ysgol ran bwysig yn penodi aelod newydd o staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol effeithiol sy'n eu galluogi i wneud cyfraniadau sylweddol at weithgareddau'r ysgol a'r gymuned leol; er enghraifft, maent yn codi arian at amryw o elusennau ac yn rhoi bocsys bwyd i'r rhai difreintiedig.

Mae cyfraddau presenoldeb am bedair o'r pum mlynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion eraill. Y llynedd, fodd bynnag, er bod y gyfradd wedi dangos cynnydd, roedd yn y 50% is. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys ymwelwyr â'r ysgol, ymweliadau addysgol ac ymweliadau preswyl. Mae'r amrywiaeth o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol fel yr Urdd, clybiau coginio, garddio a chwaraeon, yn dylanwadu'n dda ar ddysgu a hunan-barch disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'n darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau cyfathrebu a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn ddigon manwl i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn llawn mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Caiff yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig eu hyrwyddo'n dda. Mae athrawon yn cynnig ystod eang o brofiadau gwerthfawr iawn sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang. Er enghraifft, mae disgyblion wedi helpu creu ardal goedwig ddeniadol ar dir yr ysgol, ac fe wnaeth grŵp o ddisgyblion ymweld ag ysgolion ar Ballyshannon a Saint Martins yn Iwerddon.

## Addysgu: Digonol

Mae pob un o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus. Ar ddechrau gwersi, mae athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn glir gyda disgyblion ac yn eu hadolygu ar y diwedd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn deall beth maent yn mynd i'w ddysgu ac yn eu helpu i fyfyrio ar beth wnaethant ei ddysgu. Mae pob un o'r oedolion yn fodelau rôl da ar gyfer datblygu iaith.

Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau llwyddiannus i ennyn diddordeb disgyblion, ac yn defnyddio technegau holi effeithiol i helpu disgyblion feddwl drostynt eu hunain. Mae rhediad y dysgu yn dda fel arfer, ac mae athrawon yn annog disgyblion i weithio mewn parau a grwpiau bach.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon bob amser yn darparu tasgau priodol sy'n bodloni anghenion dysgu pob disgybl yn dda, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae gan yr ysgol ystod eang o asesiadau safonedig a system briodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth o'r system hon yn briodol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio strategaethau ymyrraeth addas ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae disgyblion yn dechrau datblygu medrau mewn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Er bod athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyngor iddynt ar sut i wella eu gwaith. Nid yw gweithdrefnau gosod targedau unigol yn datblygu'n gyson na'n effeithiol ym mhob dosbarth.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth reolaidd a phriodol am gynnydd a lles eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda drwy weithgareddau fel gwasanaethau wythnosol a sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol.

Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol, fel clybiau pêl-droed a chwaraeon yr Urdd, yn hyrwyddo lles a ffitrwydd disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i hyrwyddo ymddygiad da ac mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at yr ethos tawel a pharchus sydd i'w weld yn amlwg ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth arbenigol ac asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag anghenion penodol a thargedau disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol difrifol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Gwneir trefniadau priodol gan yr ysgol i nodi'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhaglenni ymyrraeth yn darparu cymorth ychwanegol effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion y disgyblion hynny sydd â lefelau llythrennedd a rhifedd isel. Fodd bynnag, nid yw targedau mewn cynlluniau addysg unigol bob amser yn ddigon eang i alluogi athrawon i ddarparu gweithgareddau addas ar gyfer y disgyblion hyn mewn gwersi dosbarth.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol. Nid yw'r ysgol yn goddef unrhyw fath o aflonyddu neu wahaniaethu, ac mae ganddi systemau sefydledig ar waith i hyrwyddo ymddygiad da. Mae ethos gofalgar yn annog disgyblion i ddangos parch a goddefgarwch at ei gilydd ac at oedolion.

Mae'r adeiladau yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae neuadd adnewyddedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer y clwb brecwast, fel lle bwyta ac ar gyfer ystod o weithgareddau chwaraeon yr ysgol. Mae arddangosiadau deniadol yn addurno'r waliau ac yn dathlu gwaith disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu ardaloedd garddio a choetir ysgogol ar y cyd ag asiantaethau allanol, a chaiff y rhain effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion. Ceir ystod dda o adnoddau dysgu sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n dda ar feysydd i'w gwella. Mae ganddo arddull arwain ofalgar sy'n rhoi lles disgyblion wrth graidd gwaith yr ysgol. Mae staff yn darparu cymorth da i sefydlu a gweithredu mentrau newydd i fynd â'r ysgol yn ei blaen.

Mae'r pennaeth yn datblygu cyfleoedd priodol i staff ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau, ac mae swydd ddisgrifiadau clir gan bob aelod o staff. Fodd bynnag, nid oes trefniadau wedi'u diffinio'n glir gan yr ysgol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth.

Er bod yr ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau, mae llawer o'r strategaethau sydd wedi'u rhoi ar waith yn rhy ddiweddar i arfarnu'r effaith yn llawn ar agweddau ar ansawdd yr addysgu ac asesu.

Mae cyfarfodydd staff a chyfarfodydd cymedroli yn darparu ffocws o'r newydd ar gyfer gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn mynd ati'n ffurfiol i gofnodi cyfarfodydd staff a chyfarfodydd eraill yn briodol. Mae hyn yn atal aelodau staff unigol rhag myfyrio'n gywir ar benderfyniadau a wnaed a chamau sydd i'w cymryd.

Mae strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae safonau'n gwella'n gyflym mewn darllen ac ysgrifennu ar draws yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac yn dechrau datblygu rôl fwy strategol. Maent yn datblygu dealltwriaeth o ddata perfformiad yr ysgol, ond nid ydynt yn herio'r ysgol yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi darlun cywir o'r ysgol. Mae'n nodi meysydd allweddol i'w gwella o ran deilliannau disgyblion ac agweddau ar addysgu a rheoli.

Mae gwelliannau diweddar i'r broses hunanarfarnu yn sicrhau bod yr ysgol yn datblygu dull mwy trwyadl o fonitro, cymedroli ac asesu. Mae'r broses ar gyfer casglu gwybodaeth uniongyrchol yn datblygu'n briodol, ac mae'r ysgol yn arfarnu ystod addas o ddata, gwaith disgyblion ac arsylwadau o wersi. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu at y broses, ond nid oes cyfraniad digonol gan rieni a disgyblion. Ceir cyswllt amlwg rhwng canlyniadau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae hyn wedi'i seilio ar argymhellion o ymweliadau monitro'r awdurdod lleol a hunanadolygu. Fodd bynnag, am fod yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol yn weddol ddiweddar, mae'n rhy gynnar i arweinwyr a staff arfarnu cynnydd yn erbyn y targedau.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i dros hanner y blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r llynedd. Er enghraifft, mae wedi creu adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu ysgol fwy cadarn. Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu dull mwy systematig o fonitro cynnydd disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda ynglŷn â materion pwysig, ac maent hwythau yn eu tro yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu os oes ganddynt broblem.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau allanol, gan gynnwys yr awdurdod lleol, i fynd i'r afael â materion penodol ac i fodloni anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Ceir cysylltiadau buddiol a chefnogol gyda sefydliadau amrywiol yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at ddatblygu profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, cynhelir ymweliadau â'r brifysgol leol fel bod disgyblion hŷn yn gallu ymgymryd â sesiynau gweithdy mewn gwyddoniaeth gyda staff a myfyrwyr y brifysgol. Mae partneriaeth gadarn gyda'r fenter addysg goedwig yn darparu profiadau uniongyrchol i ddisgyblion o wylio bywyd gwyllt a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd mewn ystod o weithgareddau.

Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae athrawon yn cydweithredu'n effeithiol gydag ysgolion eraill i safonau a chymedroli gwaith disgyblion ar y cyd, gan sicrhau dilysrwydd lefelau cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Ceir digon o staff profiadol â chymwysterau da i gyflwyno'r cwricwlwm, ac mae'r ysgol yn eu defnyddio'n briodol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae proses rheoli perfformiad effeithiol ar waith. Mae arweinwyr yn sicrhau bod hyfforddiant proffesiynol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at safonau gwell mewn llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n dda i godi safonau llythrennedd a rhifedd grwpiau disgyblion dynodedig.

Mae'r ysgol wedi cyfranogi'n llwyddiannus mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion lleol, ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau mewn llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn rheoli'r cyllid yn effeithiol. Caiff gwariant ei gysylltu'n dda â'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu presennol yr ysgol.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672304 - YSGOL GYMUNEDOL CWMPADARN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 71 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.7 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 10 | 5 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 60.0 | 80.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 60.0 | 80.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 40.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 70.0 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 10.0 | 0.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 60.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672304 - YSGOL GYMUNEDOL CWMPADARN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 71 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.7 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 13 | 13 | 8 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 84.6 | 69.2 | 75.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 13 | 8 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 76.9 | 75.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 46.2 | 37.5 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 13 | 8 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 76.9 | 75.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 15.4 | 25.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 13 | 8 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 69.2 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.4 | 23.1 | 12.5 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Further information is available from the Welsh Government My Local School website at the link below.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi’r meincnod - mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 55 | 55 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 51 | 48 | 3 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 55 | 54 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 53 | 50 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 55 | 55 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 55 | 55 | 0 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 54 | 54 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 55 | 54 | 1 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 55 | 47 | 8 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 55 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 55 | 36 | 19 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 65% | 35% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 55 | 43 | 12 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

yn dynodi’r meincnod - mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 46 | 41 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 46 | 42 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 46 | 44 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 46 | 38 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 83% | 15% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 46 | 34 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 46 | 42 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 46 | 43 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 44 | 29 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 46 | 39 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 85% | 13% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 46 | 38 | 8 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 46 | 44 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 46 | 39 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 45 | 32 | 13 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 46 | 40 | 5 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 87% | 11% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 44 | 36 | 5 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 82% | 11% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 46 | 37 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 41 | 31 | 10 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 46 | 35 | 9 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 76% | 20% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 46 | 37 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| William Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Llyr Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Raw-Rees | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.